

Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 6ed 2020 drwy gyfrwng Zoom oherwydd cyfyngiadau argyfwng Covid-19. Yn bresennol oedd Rita Jones (cadeiryddes), Alwyn Jones, Eifion Davies, Gwenda Morris, Bethan Thomas, Eilir Rowlands, Gwenda Evans, Gary Thomas a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Iolo V. Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Cofnodwyd y buddiant perthnasol wrth drafod y ceisiadau cynllunio.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-

- i) Wal gyferbyn a Neuadd Mynach - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi rhoi cyfarwyddwyd i'r gweithlu i atgyweirio'r wal.
- ii) Parcio dros nos yn y cilfannau ger Llyn Celyn – roedd y mater wedi cael ei gyfeirio i'r Uned Draffig yng Nghaernarfon.
- iii) Dŵr yn llifo ar draws y A494, cyn Braich Ddu - roedd yr Uned Cefnffyrdd am ymweld â'r safle. Adroddwyd fod y gweithlu wedi bod yn gwneud gwelliannau yno ond erbyn hyn roedd dŵr rŵan yn llifo ochr isa' i'r gilfan. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu'n ôl a'r Uned Cefnffyrdd i'w hysbysu o hyn.
- iv) Wal o flaen lloches bws Cefnddwysarn ar y A494 - eto roedd yr Uned Cefnffyrdd am ymweld â'r safle.
- v) Wal ar yr A494 o dan Ty Nant, Cefnddwysarn - eto roedd yr Uned Cefnffyrdd am ymweld â'r safle.
- vi) Coed ar ochr yr A4212 ger Llyn Celyn - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi bod allan yn asesu'r sefyllfa ac am gadw golwg ar y safle.
- vii) Gwrych angen ei dorri ar y ffordd gefn o Landderfel i Ffridd y Llyn - roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi edrych ar y safle a ddim yn gweld problem yno ar hyn o bryd

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Amrywiol.

- i) Cyngor Gwynedd – Hysbysiad yn ein cynghori eu bod am ohirio cau'r ffordd Heol Trafalgar er mwyn gwneud gwaith oherwydd pryderon y trigolion lleol.
- ii) Cyngor Tref Nefyn - Cais am gefnogaeth i'r cynnig o atal tai rhag mynd o afael pobl lleol. Cytunwyd i ddatgan cefnogaeth y Cyngor.
- iii) Cais am gefnogaeth i'r cynllun i greu ffordd werdd rhwng Bala a Llandrillo. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd nad oedd yn bosib datgan cefnogaeth y Cyngor cyn cael rhagor o wybodaeth am y cynllun. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu yn nol i holi os yr oeddynt wedi ymgynghori gyda'r tîrfeddianwyr lleol a sut y byddai'r cynllun yn cael ei ariannu.
- iv) Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – copi o'i 'Adroddiad Blynyddol 2020/21'.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/63/LB215B – Gosod tanc olew a mewnosod ffenest to.Tŷ Uchaf, Frongoch.

NP5/63/LB215C - Caniatad Adeilad Rhestredig am newidiadau mewnol, amnewid ffenestri, newid drws yn ffenest a gosod ffenest to. Tŷ Uchaf, Frongoch.

C20/0773/04/LL - Trosi ac ymestyn adeilad allanol i greu llety gwyliau. Yr Efail, Llanfor (Rita Jones yn datgan buddiant).

vi) Materion Ariannol.

a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

b) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Ebrill-Medi), TWE.

c) Ceisiadau ariannol

Trafodwyd cais ariannol Marie Curie a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf a chytunwyd i gyfrannu £100.

vii) Materion lleol.

a) Derbyniwyd y materion isod:-

i) Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ynglŷn â'r cais blaenorol i gael arwydd Cwm Main ar gyffordd y A494 yng Nghefniddwysarn.

ii) Cais am arwyddion ychwanegol yn y cilfannau ger Llyn Celyn i gyfeirio ymwelwyr i'r toiledau cyhoeddus yn nes ymlaen ar hyd y ffordd. Nodwyd hefyd fod yr arwydd toiled ger yr argae wedi ei guddio gan sticer.

iii) Llwybr troed i Moel Emoel – nodwyd fod weiren bigog wedi cael ei osod ar draws un o'r camfeydd ar y llwybr.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth,
Tachwedd 3ydd am 7.30 y.h. drwy gyfrwng “Zoom”**